# Polisi ar gyfer rheoleiddio Casgliadau Stryd a Chasgliadau Elusennol o Dŷ i Dŷ



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Awdur a gwasanaeth: David Lloyd Roberts, Gwasanaethau Ffordd o Fyw
Dyddiad cymeradwywyd gan Cabinet: 7fed Tachwedd 2017
Asesiad Effaith Integredig: Oes
Dyddiad cyhoeddi: 7fed Tachwedd 2017
Dyddiad Adolygu Polisi: 7fed Tachwedd 2020

**Mynegai**


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad Cyffredinol | 3 |
| 2 | Materion Polisi Cyffredinol | 3 |
| 2.1 | Rhannu Gwybodaeth | 3 |
| 2.2 | Cymhwyso'r Polisi | 3 |
| 2.3 | Gorfodi | 3 |
| 3 | Casgliadau Stryd | 4 |
| 3.1 | Cyflwyniad | 4-5 |
| 3.2 | Polisi | 5 |
| 3.3 | Ceisiadau a Ffioedd | 5 |
| 3.4 | Hawliadau a chydsyniadau | 5 |
| 3.5 | Rheoliadau | 5 |
| 3.6 | Apeliadau | 5 |
| | Atodiad A - Rheoliadau Casgliadau Stryd | 6-8 |
| | Atodiad B - Map yn amlinellu'r Parthau ar gyfer Tref Aberystwyth | 9 |
| | Atodiad C - Templed Ffurflen Datganiad | 10 |
| 4 | Casgliadau o Dŷ i Dŷ | 11 |
| 4.1 | Cyflwyniad | 11 |
| 4.2 | Polisi | 11-12 |
| 4.3 | Ceisiadau a Ffioedd | 12 |
| 4.4 | Apeliadau | 12 |
| 8 | Atodiad Ch - Darn o Reoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947 | 13-15 |

# 1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rheoleiddio casgliadau elusennol o arian neu werthu eitemau at ddibenion elusennol ar y stryd ac mewn mannau cyhoeddus yn ogystal â chasgliadau elusennol o dŷ i dŷ. Mae rhai materion yn ymwneud â'r casgliadau hyn yn ôl disgresiwn y Cyngor. Mae'n bwysig, felly, bod polisi gan y Cyngor i roi sylw i'r materion hyn.

Bwriedir i'r polisi hwn sicrhau bod:

a) ceisiadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol,
b) person neu sefydliad casglu yn cael cyfle teg i wneud casgliadau, ac
c) nid yw aelodau'r cyhoedd yn cael ceisiadau elusennol gormodol.

# 2 Materion Polisi Cyffredinol

## 2.1 Rhannu Gwybodaeth

Bydd y Cyngor yn rhannu â chyrff gorfodi perthnasol eraill wybodaeth a gyflenwir gan ymgeiswyr, neu a gafwyd wrth arfer swyddogaethau trwyddedu, os yw'n gyfreithlon i wneud hynny. Yn arbennig, caiff gwybodaeth bersonol ei datgelu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 yn unig. Gall hyn gynnwys ceisiadau gan y Comisiwn Archwilio neu asiantaethau rheoleiddio eraill os oes angen er mwyn darganfod neu atal trosedd, neu gall fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu mewn perthynas â gweithdrefnau cyfreithiol. Os yw'n gymwys, gall fod o dan y Protocol Rhannu Gwybodaeth perthnasol, e.e. Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASP).

## 2.2 Cymhwyso'r Polisi

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y polisi a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer rhoi hawlenni a thrwyddedau. Fel rheol caiff y polisi ei gymhwyso ym mhob achos ond os oes amgylchiadau eithriadol neu anarferol gellir gwyro o'r polisi hwn. Bydd unrhyw wyro o'r polisi hwn yn unol â chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am swyddogaeth Trwyddedu'r Cyngor neu yn achos casgliad brys gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu (gweler para 4.2 (5). Mae'r awdurdod trwyddedu yn argymell bod pob sefydliad yn dilyn Cod Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian. Mae copi o'r cod ymarfer hwn i'w weld yn www.institute-of-fundraising.org.uk

## 2.3 Gorfodi

Mae'n drosedd i fethu â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Wrth benderfynu pa gamau gweithredu i'w dilyn ar gyfer troseddau, ystyrir amgylchiadau unigol pob achos, Polisi Gorfodi'r Cyngor a chyfarwyddyd cenedlaethol arall megis y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

# 3 Casgliadau Stryd

## 3.1 Cyflwyniad

Mae Deddf yr Heddlu, Ffatrïoedd, ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol reoleiddio casgliadau sy'n cael eu cynnal yn y stryd. Dylid nodi bod casgliad yn golygu casgliad neu werthu eitemau er budd elusennol neu ddibenion eraill.

## 3.2 Polisi

Caiff pob casgliad ei gynnal yn unol â'r Rheoliadau a wnaed gan y Cyngor a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd y polisi hwn yn ychwanegol i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau wedi'u hatodi yn Atodiad A.

1) Ni ellir cynnal casgliadau mewn unrhyw stryd gyhoeddus neu fan cyhoeddus, ar wahân i gyfarfod awyr agored, oni bai bod yr hyrwyddwr wedi cael trwydded ymlaen llaw gan yr awdurdod trwyddedu. Mae hyn yn cynnwys casgliadau fel rhan o orymdeithiau. Mae cynnal gweithgaredd o'r fath heb ganiatâd yn debygol o arwain at gyflawni trosedd. Nid yw hyn yn atal casgliadau rhag cael eu cynnal ar dir nad yw'n fan cyhoeddus, ond gall rhai darnau o dir sy'n eiddo preifat y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn gyffredinol gael ei ystyried yn lle cyhoeddus.

2) Dim ond un elusen gaiff caniatâd i gasglu o fewn canol unrhyw dref neu o fewn parth dynodedig yng nghanol y dref honno ar unrhyw ddiwrnod arbennig. Pan fydd elusen am gasglu mewn lleoliad neu barth arbennig yng nghanol y dref, gellir caniatáu i elusennau eraill gasglu yng ngweddill canol y dref honno. Anogir sefydliadau elusennol i fod yn hyblyg ac i ymgymryd â threfniadau anffurfiol gyda'i gilydd i rannu gofod mewn digwyddiadau poblogaidd. Bydd y penderfyniad terfynol i ganiatáu caniatâd bob amser yn gorwedd gyda'r awdurdod trwyddedu.

3) Caiff trwyddedau i gasglu eu rhoi am gyfnodau nad ydynt yn fwy na saith diwrnod calendr yn olynol yn unig gyda chyfnod o saith diwrnod clir rhwng rhoi trwyddedau.

4) Ni roddir trwyddedau i unrhyw sefydliad sydd ag unrhyw deyrngarwch neu ymlyniad gwleidyddol uniongyrchol neu sy'n ymwneud ag unrhyw fath o weithredu uniongyrchol, neu'n hyrwyddo unrhyw fath o weithredu uniongyrchol, sy'n brawychu neu'n bygwth unrhyw berson neu grŵp, neu sy'n cynnwys neu'n annog unrhyw weithgarwch anghyfreithlon.

5) Os yw ceisiadau'n cael eu derbyn gan fwy nag un sefydliad ar gyfer yr un diwrnod, neu am gyfnodau sy'n gorgyffwrdd, caiff caniatâd ei roi i un sefydliad yn unig.

6) Ni all dyddiadau gael eu bwcio dros dro. Rhaid anfon cais i'r tîm trwyddedu i wneud cais am gasgliad stryd (gweler paragraff 3.3).

7) Mae Tref Aberystwyth wedi'i rhannu'n ddau barth fel yr amlinellir ar y map yn Atodiad B i'r polisi hwn. Rhoddir blaenoriaeth i elusennau lleol neu elusennau sydd â chysylltiad lleol os yw ceisiadau wedi cael eu gwneud ond heb eu caniatáu eto am yr un cyfnod neu gyfnod sy'n gorgyffwrdd. Eithriadau i hyn fydd ar gyfer yr elusennau cenedlaethol canlynol lle mae casgliadau wedi'u cysylltu â dyddiadau penodol o'r flwyddyn, a rhoddir blaenoriaeth i'r rhain: Plant mewn Angen, y Lleng Brydeinig

Frenhinol, y Ford Gron, y Clwb Llewod a'r Clwb Rotari a'r RNLI.

8) Yn ôl disgresiwn y Pennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw, gall trwyddedau gael eu cyfyngu i strydoedd neu fannau cyhoeddus neu rannau ohonynt fel yr ystyrir yn briodol.

9) Ni chaniateir ceisiadau i gasglu i godi arian at y diben o ariannu teithiau personol, hyd yn oed os yw cyfran o'r arian a godir yn cael ei rhoi i elusen.

10) Rhaid i gasgliadau symudol, megis gorymdeithiau carnifal, rasys hwyl, teithiau beicio neu ddigwyddiadau tebyg sy'n cynnwys casglu o'r cyhoedd ar hyd y ffordd gael trwydded i gasglu ar y stryd.

### 3.3 Ceisiadau, Ffioedd a Ffurflenni Datganiad

Dim ond ceisiadau a gyflwynir ar ffurflen gais benodedig y Cyngor gaiff eu hystyried. Ar hyn o bryd ni chodir ffi i wneud cais am drwydded ac nid yw unrhyw ffi yn daladwy os caiff trwydded ei rhoi.

Caiff pob cais ei wneud o leiaf un mis calendr cyn dyddiad dechrau arfaethedig y casgliad. Yn gyffredinol ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl hyn eu hystyried oni bai bod rhesymau eithriadol iawn dros wneud hynny. Enghraifft o'r fath fyddai pan fydd angen elusennol mawr wedi codi'n sydyn na ellir fod wedi'i ragweld, ac mae angen rhoi cymorth ar frys, e.e. cymorth ar gyfer twsnami neu ddaeargryn neu ifogydd lleol difrifol.

Ni chaiff ceisiadau am drwyddedau neu hawlildiadau eu hystyried mwy na deuddeg mis cyn dyddiad dechrau arfaethedig y casgliad.

Yn dilyn y casgliad, rhaid i ffurflen datganiad gael ei dychwelyd i'r Cyngor o fewn mis, gan roi cyfrif am yr arian a godwyd. Os yw datganiad enillion yn ddim neu os na ddychwelwyd y datganiad enillion, fel arfer caiff ceisiadau dilynol eu gwrthod am gyfnod o un mlynedd.

Os yw trwydded i gynnal casgliad wedi cael ei rhoi ond ni chaiff y casgliad ei gynnal, rhaid i'r drwydded gael ei dychwelyd i'r gwasanaeth trwyddedu o leiaf 7 diwrnod cyn y bwriadwyd cynnal y casgliad; fel arfer byddai methu â gwneud hynny yn arwain at wrthod ceisiadau dilynol am gyfnod o un mlynedd.

### 3.4 Hawliadau a chydsyniadau

Mae Rheoliadau'r Cyngor yn caniatáu ar gyfer gwyro o'r Rheoliadau mewn rhai achosion o dan amgylchiadau penodol.

### 3.5 Rheoliadau

Bydd ceisiadau am drwydded a'r rhai sydd wedi cael trwydded yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Cyngor sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A i'r polisi hwn. Mae unrhyw un sy'n gweithredu'n groes i'r Rheoliadau hyn yn euog o drosedd ac o'ch dyfarnu'n euog gall fod yn rhaid talu dirwy heb fod yn fwy na Lefel Un ar y Raddfa Safonol.

### 3.6 Apeliadau

Nid oes unrhyw hawl apelio ffurfiol yn erbyn unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud gan y Cyngor i roi neu wrthod cais am drwydded casgliadau stryd. Fodd bynnag, er mwyn bod yn

deg, os yw sefydliad neu gasglwr unigol am gyflwyno cais i adolygu penderfyniad dylai'r mater gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw a fydd yn adolygu'r penderfyniad a wnaed.

**Atodiad A - Rheoliadau Casgliadau Stryd**

Rheoliadau a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion ynghylch Casgliadau Stryd

Wrth arfer y pwerau a roddwyd arno gan Adran 5 o Ddeddf yr Heddlu, Ffatrïoedd, ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916, fel y'i diwygiwyd gan Adran 251 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Atodlen 29 i'r Ddeddf honno, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Rheoliadau canlynol mewn perthynas â'r mannau a'r casgliadau y gellir caniatáu i bobl eu cynnal mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus yn Sir Ceredigion i gasglu arian neu werthu eitemau er budd dibenion elusennol neu ddibenion eraill.

1. Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:-

| |
|---|
| mae "casgliad" yn golygu casglu arian neu werthu eitemau er budd dibenion elusennol neu ddibenion eraill a bydd y gair "casglwyr" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;. |
| mae "hyrwyddwr" yn golygu person sy'n peri i eraill weithredu fel casglwyr; |
| ystyr "yr Awdurdod Trwyddedu" yw Cyngor Sir Ceredigion;. |
| ystyr "trwydded" yw trwydded ar gyfer casgliad; |
| mae "cyfrannwr" yn golygu person sy'n cyfrannu at gasgliad ac mae'n cynnwys rhywun sy'n prynu eitemau sydd ar werth er budd dibenion elusennol neu ddibenion eraill; |
| mae "blwch casglu" yn golygu blwch neu gynhwysydd arall ar gyfer derbyn arian gan gyfranwyr. |

2. Ni wneir unrhyw gasgliad ar wahân i gasgliad a gynhelir mewn cyfarfod yn yr awyr agored, mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus o fewn Sir Ceredigion oni bai bod hyrwyddwr wedi cael trwydded gan yr awdurdod trwyddedu.

3. Bydd ceisiadau am drwydded yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig ddim hwyrach na mis cyn y dyddiad pan fwriedir gwneud y casgliad, ar yr amod y gall yr awdurdod trwyddedu leihau'r cyfnod o fis os yw'n fodlon bod rhesymau arbennig dros wneud hynny.

4. Ni wneir unrhyw gasgliad ac eithrio ar y diwrnod a rhwng yr oriau a nodwyd yn y drwydded.

5. Gall yr awdurdod trwyddedu, wrth roi trwydded, gyfyngu'r casgliad i'r fath strydoedd neu fannau cyhoeddus neu'r fath rannau ohonynt sy'n addas yn ei dyb ef.

6. 1) Ni all unrhyw berson gynorthwyo neu gymryd rhan mewn unrhyw gasgliad heb awdurdod ysgrifenedig hyrwyddwr;

   2) Bydd unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi o dan baragraff (1) uchod yn dangos y fath awdurdod ysgrifenedig ar unwaith i'w archwilio pan ofynnir iddo wneud hynny gan swyddog â'r awdurdod priodol o'r awdurdod trwyddedu neu unrhyw heddwas.

7. Ni chaiff unrhyw gasgliad ei wneud mewn unrhyw ran o'r briffordd sydd â throedffordd; ar yr amod y gall yr awdurdod trwyddedu, os yw'n credu ei fod yn addas, ganiatáu i gasgliad ddigwydd ar y briffordd honno pan fydd casgliad o'r fath wedi'i awdurdodi i'w

gynnal mewn cysylltiad â gorymdaith

8. Ni wneir unrhyw gasgliad mewn ffordd sy'n debygol o achosi anghyfleustra i unrhyw berson.

9. Ni fydd unrhyw gasglwr yn taer-erfyn ar unrhyw berson gan achosi annifyrrwch i'r fath berson.

10. Ni fydd unrhyw gasglwr, heb gydsyniad yr awdurdod trwyddedu, yng nghwmni anifail heblaw ci cymorth neu gi sy’n ymddwyn yn dda ac yn cynrychioli elusen y casglwr

11. Tra bydd yn casglu:

a) bydd casglwr yn aros yn ei unfan; a

b) ni fydd casglwr neu ddau gasglwr gyda'i gilydd yn fwy agos na 25 metr i gasglwr arall ar yr amod y gall yr awdurdod trwyddedu, os yw'n credu ei fod yn addas, hepgor gofynion y rheoliad hwn mewn perthynas â chasgliad sydd wedi'i awdurdodi i'w gynnal mewn cysylltiad â gorymdaith.

12. Ni fydd unrhyw hyrwyddwr, casglwr neu berson sy'n gysylltiedig fel arall â chasgliad yn caniatáu i berson o dan 16 oed i weithredu fel casglwr.

13. 1) Bydd pob casglwr yn cario blwch casglu.
2) Bydd pob blwch casglu wedi'i rifo'n olynol a bydd wedi'i gau a'i selio'n ddiogel mewn ffordd sy'n ei rwystro rhag cael ei agor heb dorri'r sêl.
3) Bydd yr holl arian y mae casglwr yn ei dderbyn oddi wrth gyfranwyr yn cael ei roi ar unwaith mewn blwch casglu.
4) Bydd pob casglwr yn danfon, heb ei agor, pob blwch casglu yn ei feddiant i hyrwyddwr.

14. Ni fydd casglwr yn cario neu'n defnyddio unrhyw flwch casglu, cynhwysydd neu badell nad yw'n dwyn arni, wedi'i arddangos mewn lle amlwg, enw'r elusen neu'r gronfa a fydd yn elwa nac unrhyw flwch casglu nad yw wedi'i rifo'n briodol.

15. 1) Yn amodol ar baragraff (2) isod bydd blwch casglu yn cael ei agor ym mhresenoldeb hyrwyddwr a pherson cyfrifol arall.
2) Pan fydd blwch casglu wedi'i ddanfon heb ei agor i fanc, gellir ei agor gan swyddog y banc.
3) Cyn gynted ag y bydd blwch casglu wedi'i agor, bydd y person sy'n ei agor yn cyfrif y cynnwys ac yn cofnodi'r swm ynghyd â rhif y blwch casglu mewn rhestr a fydd yn cael ei hardystio gan y person hwnnw.

16. (1) O fewn un mis ar ôl dyddiad unrhyw gasgliad bydd y person y rhoddwyd trwydded iddo yn anfon ymlaen at yr awdurdod trwyddedu:-
a) datganiad yn y ffurf a nodir yn Atodlen C i'r rheoliadau hyn, neu ar ffurflen i'r un perwyl, yn dangos y swm a dderbyniwyd a'r treuliau a'r taliadau a gododd mewn perthynas â chasgliad o'r fath, ac wedi'i ardystio gan yr hyrwyddwr hwnnw a chyfrifydd cymwysedig;
b) rhestr o'r casglwyr;
c) rhestr o'r symiau sydd wedi'u cynnwys ym mhob blwch casglu, a bydd, os yw'n ofynnol gan yr awdurdod trwyddedu, yn ei fodloni ynghylch y defnydd priodol o enillion y casgliad.

(2) Bydd y person dywededig, o fewn yr un cyfnod, ar draul y person hwnnw ac ar ôl i

gyfrifydd cymwysedig roi ei ardystiad o dan baragraff (1) (a) uchod yn cyhoeddi yn y fath bapur newydd neu bapurau newydd yn ôl cyfarwyddyd yr awdurdod trwyddedu ddatganiad yn dangos enw'r person y rhoddwyd y drwydded iddo, yr ardal y mae'r drwydded yn ymwneud â hi, enw'r elusen neu'r gronfa a fydd yn elwa, dyddiad y casgliad, y swm a gasglwyd a swm y treuliau a'r taliadau a wnaed mewn cysylltiad â'r fath gasgliad. Gweler enghraifft o'r Ffurflen Datganiad fel Atodiad C i'r polisi hwn.


(3) Gall yr awdurdod trwyddedu, os yw'n fodlon bod rhesymau arbennig dros wneud hynny, ymestyn y cyfnod o un mis y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod.

(4) At ddibenion y Rheoliad hwn mae "cyfrifydd cymwysedig" yn golygu aelod o un neu ragor o'r cyrff canlynol:-
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban;
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig;
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon.

17. Ni fydd y rheoliadau hyn yn berthnasol:-
   a) mewn perthynas â chasgliad a gynhaliwyd mewn cyfarfod yn yr awyr agored, neu
   b) gwerthu eitemau mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus pan fydd yr eitemau'n cael eu gwerthu fel rhan o fasnach arferol.

18. Mae unrhyw un sy'n gweithredu'n groes i unrhyw un o'r rheoliadau yn atebol ar euogfarn ddiannod i dalu dirwy heb fod yn fwy na Lefel Un ar y Raddfa Safonol.

**MAP PARTHAU** ATODIAD B



## FFURFLEN DATGANIAD

Enw'r person y rhoddwyd y drwydded iddo/iddi: ......................................................

Cyfeiriad y person y rhoddwyd y drwydded iddo/iddi: ..............................................

Enw'r elusen neu'r gronfa fydd yn elwa: ....................................................................

Dyddiad y casgliad: ........................................................................................

**<u>DANGOSWCH GOFNODION DIM</u>**

| **Enillion y Casgliad** | **Swm** | **Cyfanswm** | **Treuliau a Chymhwyso Enillion** | **Swm** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| O flychau casglu | | | Argraffu ac Offer Swyddfa<br>Post<br>Hysbysebu | | |
| Llog ar Enillion | | | Blychau Casglu<br>Bathodynnau<br>Arwyddluniau | | |
| Eitemau Eraill<br>………………<br>……………… | | | Eitemau Eraill<br>………………………………<br>……………………………… | | |
| | | | Taliadau wedi'u cymeradwyo o dan Reoliad 15(2)<br>Gwaredu Gweddill (rhowch fanylion) | | |
| **CYFANSWM (£)** | | | **CYFANSWM (£)** | | |

**<u>Tystysgrif y person y rhoddwyd y drwydded iddo/iddi:</u>**

Tystiaf hyd orau fy ngwybodaeth a'm cred fod yr uchod yn gofnod cywir o'r enillion, treuliau a'r defnydd o enillion y casgliad.

**Dyddiad: ………………………………………………  Llofnodwyd: ……………………………**

**<u>Tystysgrif Cyfrifydd/Person Cymwysedig</u>**

Tystiaf fy mod i wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf a bod yr uchod, yn fy marn i, yn gofnod o'r enillion, treuliau a chymhwyso enillion y casgliad.

**Llofnodwyd: ……………………………..……..**

**Dyddiad ………………………..  Cymwysterau: …………………………………**

# 4 Casgliadau o Dŷ i Dŷ

## 4.1 Cyflwyniad

Ar hyn o bryd mae casgliadau elusennol cyhoeddus a wneir o dŷ i dŷ yn cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 a Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947. Mae darn o'r Rheoliadau hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad Ch. Ni ellir gwneud unrhyw gasgliad at ddiben elusennol oni bai y cydymffurfir â darpariaethau'r Ddeddf a'r Rheoliadau; fel arall cyflawnir trosedd. Os yw unrhyw berson neu sefydliad yn hyrwyddo casgliad elusennol mae'n rhaid iddynt gael trwydded i wneud hynny. Mae unrhyw un sy'n gweithredu fel casglwr lle nad oes hyrwyddwr trwyddedig yn cyflawni trosedd hefyd. Gall y cosbau ar gyfer troseddau amrywio o ddirwy a/neu hyd at chwe mis o garchar.

Mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn gyfrifol am gynllun gorchymyn esemptiad cenedlaethol ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ a wneir o dan y gyfraith bresennol. Yn gyffredinol mae gorchmynion esemptiad cenedlaethol ar gael i sefydliadau sydd wedi cael trwyddedau casgliadau o dŷ i dŷ mewn o leiaf 70-100 o ardaloedd trwyddedu awdurdodau lleol am y ddwy flynedd flaenorol. O 2015 ymlaen mae 45 o ddeiliaid gorchymyn esemptiad cenedlaethol.

Mae darpariaethau arbennig yn ymwneud â chasgliadau sy'n lleol i'r ardal ac sydd i'w cynnal dros gyfnod byr. Mewn amgylchiadau o'r fath gall yr Heddlu gyhoeddi tystysgrif esemptiad lleol fel dewis arall i'r Cyngor yn rhoi trwydded.

Dylid nodi bod gwerthu nwyddau o ddrws i ddrws ar y sail y caiff yr enillion eu rhoi i elusen yn cael ei ystyried yn gasgliad o ddrws i ddrws.

Dylid nodi nad oes unrhyw bŵer gan y Cyngor i atodi amodau at drwydded, nac i gyfyngu nifer y casgliadau o dŷ i dŷ sy'n cael eu cynnal ar unrhyw adeg nac i'w neilltuo i ardal arbennig.

## 4.2 Polisi

1) Swm a ymrwymir i elusen

Mae sail gwrthod gan y Cyngor, a fanylir yn y Ddeddf, cais am drwydded yn cynnwys pan fydd y cyfanswm yn debygol o gael ei gymhwyso at ddibenion elusennol gan fod y casgliad yn annigonol o'i gymharu â gwerth yr enillion sy'n debygol o gael eu derbyn (gan gynnwys unrhyw enillion a dderbyniwyd eisoes).

2) Person addas a phriodol

Mae'r sail gwrthod yn cynnwys pan nad yw'r ceisydd yn berson addas a phriodol gan iddo ei gael yn euog o droseddau arbennig. Polisi'r Cyngor yn gyffredinol fydd ni roddir trwydded i unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o drosedd o anonestrwydd neu caiff ei drwydded ei dirymu.

3) Arfer diwydrwydd dyladwy

Os yw'r ceisydd neu'r deiliaid trwydded yn methu arfer diwydrwydd dyladwy o ran sicrhau bod casglwyr wedi'u hawdurdodi ganddo neu ganddi yn bersonau addas a phriodol, gall y Cyngor wrthod rhoi trwydded neu ddirymu'r drwydded. Polisi'r Cyngor

hwn yw, os yw'r Cyngor yn fodlon nad yw diwydrwydd dyladwy wedi cael ei arfer, caiff trwydded ei gwrthod neu ei dirymu.

4) Gwybodaeth ychwanegol

Os yw'r ceisydd neu'r deiliaid trwydded yn gwrthod neu'n anghofio rhoi i'r Cyngor yr wybodaeth y mae'n rhesymol i'r Cyngor ofyn amdani, fel rheol bydd y Cyngor yn gwrthod y cais neu'n dirymu trwydded bresennol.

5) Ceisiadau hwyr

Rhaid i geisiadau gael eu gwneud ddim hwyrach na diwrnod cyntaf y mis cyn y mis pan fwriedir cynnal y casgliad. Pennir y cyfnod hwn yn y ddeddfwriaeth. Gall ceisiadau hwyr gael eu hystyried ond dim ond pan fydd rhesymau arbennig dros wneud hynny. Polisi'r Cyngor hwn yw ni chaiff ceisiadau a dderbynnir yn hwyr eu hystyried yn gyffredinol oni bai bod rheswm eithriadol iawn dros wneud hynny. Enghraifft o'r fath fyddai pan fydd angen elusennol mawr yn codi'n sydyn, na ellir fod wedi'i ragweld, ac mae angen rhoi cymorth ar frys, e.e. cymorth ar gyfer tswnami, daeargryn, llifogydd lleol difrifol neu ddifrod storm. Caiff casgliadau brys ar gyfer trychinebau rhyngwladol/cenedlaethol eu hawdurdodi gan y Cadeirydd neu yn ei absenoldeb yr Is-gadeirydd os yw'r casgliad y tu allan i'r polisi a nodir.

### 4.3 Ceisiadau a Ffioedd

Ni chodir ffi am wneud cais ar gyfer trwydded, ac nid oes unrhyw ffi ar gyfer rhoi trwydded. Pan fydd trwydded wedi'i rhoi rhaid i hyrwyddwr y casgliad sicrhau bod eu casglwyr yn cael tystysgrifau awdurdod penodedig a bathodynnau, a dylid cael copïau ohonynt gan Lyfrfa EM. Mae'n drosedd i unrhyw gasglwr gasglu heb fod ganddo/ganddi yr awdurdod wedi'i lofnodi a'r bathodyn gofynnol.

Sylwch mae casgliadau a gynhelir gan sefydliadau elusennol rhanbarthol neu genedlaethol o dan awdurdod esemptiad Swyddfa'r Cabinet.

### 4.4 Apeliadau

Mae hawl apelio i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod rhoi trwydded i sefydliad i gynnal casgliad o dŷ i dŷ neu ddirymu trwydded o'r fath.

Dylid gwneud apeliadau yn ysgrifenedig i:
Swyddfa'r Gymdeithas Sifil,
2il Lawr, Admiralty Arch, South Side
The Mall, Llundain SW1A 2WH

Rhaid cyflwyno apêl o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y rhoddwyd y rhybudd o wrthod neu ddirymu i'r ceisydd neu ddeiliad y drwydded.

## Atodiad Ch
## Darn o Reoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947

Mae rhifau'r paragraffau yn cyfeirio at rifau'r paragraffau yn y rheoliadau gwreiddiol.

**Cyfrifoldeb hyrwyddwyr mewn perthynas â chasglwyr**

5. Bydd pob hyrwyddwr casgliad yn arfer pob diwydrwydd priodol:-

(a) Er mwyn sicrhau bod person a awdurdodir i weithredu fel casglwyr at ddibenion y casgliad yn bersonau addas a phriodol; ac

(b) Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar ran personau a awdurdodir felly â darpariaethau'r rheoliadau hyn.

**Tystysgrifau awdurdod, bathodynnau, blychau casglu a llyfrau derbynebau**

6. (1) Ni fydd unrhyw hyrwyddwr casgliad yn caniatáu i unrhyw berson weithredu fel casglwr, oni bai ei fod wedi rhoi neu beri ei rhoi i'r person hwnnw -

(a) tystysgrif awdurdod benodedig wedi'i llenwi'n briodol (ac eithrio mewn perthynas â llofnod y casglwr) ac wedi'i llofnodi gan neu ar ran prif hyrwyddwr y casgliad;

(b) bathodyn penodedig, ar ôl mewnosod ynddo neu atodi iddo arwydd cyffredinol o ddiben y casgliad; ac

(c) os bydd arian yn cael ei gasglu, blwch casglu neu lyfr derbynebau wedi'i farcio ag arwydd clir o ddiben y casgliad a rhif gwahaniaethol, a bydd yr arwydd a'r rhif yn achos llyfr derbynebau, hefyd wedi'u marcio ar bob derbynneb sydd wedi'i chynnwys ynddo yn ogystal â rhif olynol y dderbynneb.

(2) Bydd pob hyrwyddwr casgliad yn arfer pob diwydrwydd priodol er mwyn sicrhau -

(a) na roddir unrhyw dystysgrif awdurdod benodedig, bathodyn penodedig, blwch casglu neu lyfr derbynebau, oni bai bod enw a chyfeiriad y casglwr y'u rhoddwyd iddo wedi'u cofnodi mewn rhestr sy'n dangos mewn perthynas ag unrhyw flwch casglu neu lyfr derbynebau ei rif gwahaniaethol; a

(b) bod pob tystysgrif awdurdod benodedig, bathodyn penodedig, blwch casglu neu lyfr derbynebau a roddir ganddo neu ar ei ran yn cael ei ddychwelyd pan fydd y casgliad wedi'i gwblhau neu pan fydd casglwr am unrhyw reswm arall yn peidio â gweithredu felly.

(3) Yn achos casgliad y rhoddwyd trwydded mewn perthynas ag ef -

(a) bydd pob tystysgrif awdurdod benodedig yn cael ei rhoi ar ffurflen a gafwyd gan Lyfrfa Ei Fawrhydi, a cheir pob bathodyn penodedig yn y modd hwnnw; a

(b) bydd pob tystysgrif awdurdod benodedig wedi'i dilysu, a bydd yr arwydd cyffredinol ar bob bathodyn penodedig o ddiben y casgliad yn cael ei fewnosod ynddi neu'i atodi iddi, mewn modd a gymeradwyir gan brif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal y rhoddwyd y drwydded mewn perthynas â hi.

**<u>Dyletswyddau casglwyr mewn perthynas â thystysgrifau a bathodynnau</u>**

7. Bydd pob casglwr yn -

(a) llofnodi ei enw ar y dystysgrif benodedig a roddwyd iddo ac yn ei dangos ar orchymyn unrhyw heddwas neu unrhyw breswylydd tŷ y mae'n ymweld ag ef at ddibenion y casgliad;

(b) llofnodi ei enw ar y bathodyn penodedig a roddwyd iddo ac yn gwisgo'r bathodyn mewn lle amlwg pryd bynnag y bydd wrthi'n casglu; ac

(c) cadw'r fath dystysgrif a bathodyn yn ei feddiant ac yn eu dychwelyd i hyrwyddwr y casgliad os caiff un arall yn ei lle neu pan fydd y casgliad wedi'i gwblhau neu ar unrhyw adeg arall ar orchymyn hyrwyddwr y casgliad.

**<u>Terfyn oedran</u>**

8. Ni fydd unrhyw berson o dan 16 oed yn gweithredu neu'n cael ei awdurdodi i weithredu fel casglwr arian.

**<u>Taer-erfyn</u>**

9. Ni fydd unrhyw gasglwr yn taer-erfyn ar unrhyw berson gan achosi annifyrrwch i'r fath berson, neu'n aros yn, neu wrth ddrws, unrhyw dŷ os bydd unrhyw breswylydd ynddo yn gofyn iddo adael.

**<u>Casglu Arian</u>**

10. (1) Pan fydd casglwr yn casglu arian drwy ddull blwch casglu, ni fydd yn derbyn unrhyw gyfraniad ond drwy adael i'r person y'i derbynnir oddi wrtho ei roi mewn blwch casglu a roddwyd iddo gan hyrwyddwr y casgliad.

(2) Pan fydd casglwr yn casglu arian drwy ddulliau ar wahân i flwch casglu, bydd, wrth dderbyn cyfraniad oddi wrth unrhyw berson, ar unwaith ac ym mhresenoldeb y fath berson yn cofnodi ar ffurflen dderbynneb mewn llyfr derbynebau a roddwyd iddo gan hyrwyddwr y casgliad ac ar yr wrthddalen neu ddyblygeb gyfatebol y dyddiad, enw'r cyfrannwr a'r swm a gyfrannwyd, a bydd yn llofnodi'r ffurflen dderbynneb, a bydd y cofnodion a'r llofnod mewn inc neu bensel annileadwy, a bydd yn rhoi'r ffurflen dderbynneb i'r person y derbyniodd y cyfraniad oddi wrth y person.

**Dyletswydd casglwyr i ddychwelyd blychau a llyfrau**

11. Bydd pob casglwr y rhoddwyd blwch casglu neu lyfr derbynebau iddo -

(a) pan fydd y blwch casglu'n llawn neu'r llyfr derbynebau wedi'i ddisbyddu, neu

(b) ar orchymyn hyrwyddwr y casgliad, neu

(c) pan na fydd yn dymuno gweithredu fel casglwr, neu

(ch) pan fydd y casgliad wedi'i gwblhau,

yn dychwelyd i hyrwyddwr y casgliad y blwch casglu hwnnw â'r sêl heb ei thorri neu'r llyfr derbynebau hwnnw ynghyd â swm sy'n gyfartal â chyfanswm y cyfraniadau (os oes yna gyfraniadau) a gofnodwyd ynddo.

**Archwilio blychau a llyfrau**

12. (1) Yn amodol ar yr hyn a ragnodir ym mharagraff (2) y rheoliad hwn, bydd blwch casglu pan gaiff ei ddychwelyd yn cael ei archwilio gan, ac os yw'n cynnwys arian, ac yn cael ei agor ym mhresenoldeb, hyrwyddwr y casgliad a pherson cyfrifol arall.

(2) Pan fydd blwch casglu yn cael ei ddychwelyd heb ei agor i fanc, gall swyddog y banc ei archwilio a'i agor yn absenoldeb hyrwyddwr y casgliad.

(3) Cyn gynted ag y bydd blwch casglu wedi'i agor, bydd y cynnwys yn cael ei gyfrif a bydd y swm yn cael ei gofnodi ynghyd â rhif gwahaniaethol y blwch casglu mewn rhestr, a fydd yn cael ei hardystio gan y personau sy'n gwneud yr archwiliad.

(4) Bydd pob llyfr derbynebau pan fydd yn cael ei ddychwelyd a'r holl symiau a dderbynnir gydag ef yn cael eu harchwilio gan hyrwyddwr y casgliad a pherson cyfrifol arall, a bydd swm y cyfraniad a gofnodwyd yn y llyfr derbynebau yn cael ei wirio ynghyd â'r arian ac yn cael ei gofnodi ynghyd â rhif gwahaniaethol y llyfr derbynebau mewn rhestr, a fydd yn cael ei hardystio gan y person sy'n gwneud yr archwiliad.

**Cael gwared â thystysgrifau awdurdod nas defnyddir, ac ati**

17. Bydd prif hyrwyddwr casgliad yn arfer pob diwydrwydd priodol er mwyn sicrhau bod tystysgrifau awdurdod penodedig a bathodynnau penodedig o bob math a gafwyd ganddo at ddibenion y casgliad yn cael eu dinistrio pan na fydd eu hangen mwyach mewn cysylltiad â'r casgliad hwnnw neu mewn cysylltiad â chasgliad yn y dyfodol y mae wedi'i awdurdodi i'w hyrwyddo at yr un diben.